Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 25  21ain i 27ain o Fedi 2020)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Cynhaliwyd ton gyntaf o'r arolwg rhwng mis Ebrill 2020 a Gorffennaf 2020. Dechreuodd yr ail don ym mis Medi 2020 lle bydd 600 o unigolion yn cael eu harolygu a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir gan gyfranogwyr yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir mewn adroddiadau bob pythefnos.

Caiff data yr arolwg ei haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd. Yn ystod rhai wythnosau, mae cwestiynau newydd yn cael eu hychwanegu a'u dileu, yn dibynnu ar y materion sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg honno.

Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys mesurau arferol a welwyd mewn adroddiadau blaenorol a nifer o gwestiynau newydd, gan gynnwys ar brofion coronafeirws, symptomau a chanfyddiadau o nifer y bobl a heintiwyd.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Prif ganfyddiadau’r wythnos hon

Cafodd 601 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 25 o’r arolwg (21ain i 27ain o Fedi).

## 64%*

o fobl yn dweud eu bod yn gwisgo gorchuddion gwyneb 'y rhan fwyaf o'r amser' wrth fynd allan; i fyny o 33% yn wythnos 23 (7-13 Medi).

## 96%*

o b=fobl yn dweud eu bod 'bob amser' yn gwisgo gorchuddion gwyneb mewn siopau yng Nghymru; fyny o 47% yn wythnos 23.

## 39%

o fobl yn dweud mai eu prif reswm dros wisgo gorchudd gwyneb yw i amddiffyn eraill; 33% ar gyfer hunan anddiffyn; a 28% oherwydd ei bod yn ofynnol gwneud hynny.

## 13%

o fobl yn dweud eu bod nhw neu rywun arall yn eu cartref wedi ceisio cael prawf coronafeirws yn y bythefnos cyn yr arolwg.#

## 32%

o fobl o'r farn fod dolur gwddf yn symptom sy'n arwydd o angen am brawf coronafeirws.

## 21%

o fobl wedi bod yn poeni 'llawer' am eu hiechyd meddwl a'u lles.

## 62%

o fobl yn dweud fod y rhan fwyaf neu'r holl bobl y maent yn eu hadnabod yn dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol.

## 17%

o fobl o'r farn fod lleihau'r newid yn yr hinsawdd yn fwy o flaenoriaeth na lleihau lledaeniad coronafeirws; Mae 83% yn ystyried fod yna fwy o flaenoriaeth i glefyd coronafeirws.

*Daeth gorchuddion gwyneb yn orfodol mewn mannau cyhoeddus dan do yng Nghymru ar 14eg o Fedi yn ystod yr wythnos rhwng arolygon; #mae’r cyfnod amser yma’n cyd-daro gydag ysgolion yn ailagor.

# Ynglŷn â coronafeirws

| Cwestiwn | Ymateb | % |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws?** | Do | 13% |
| | Ddim yn gwybod | 7% |
| **Ydych chi wedi cael eich profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff?** | Wedi cael prawf coronafeirws | 19% |
| | Wedi cael prawf gwrffgyrff | 5% |
| **Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws?** *Yn cynnwys yr holl ymatebwyr* | Dim o gwbl | 23% |
| | Ychydig | 26% |
| | Gymedrol | 33% |
| | Hynod | 18% |

# Ynglŷn â coronafeirws

**Yn ystod y bythefnos diwethaf, a ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi ceisio cael prawf coronafeirws?**


| | |
|---|---|
| Do | 13% |

**Dylech ofyn am brawf coronafeirws os oes gennych pa un o'r symptomau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Cur pen | 14% |
| Tymheredd uchel | 77% |
| Dolur gwddf | 32% |
| Peswch parhaus | 82% |
| Tisian a trwyn yn rhedeg | 12% |
| Taflu fyny | 12% |
| Colli blas ac arogl | 83% |
| Dolur rhydd | 16% |

32 % yn unig nododd y tri symptom hyn yn unig.

**Ar hyn o bryd, faint o fobl yng Nghymru ydych chi'n meddwl sydd wedi'u heintio â chlefyd coronafeirws?**





Amcangyfrifwyd cynllun peilot Arolwg Heintiau COVID-19 o Swyddfa Archwilio Cymru fod gan **1 o bob 300** o bobl yng Nghymru glefyd coronafeirws yn ystod wythnos 13-19 o Fedi. Amcangyfrifwyd y canfyddiadau cychwynnol o'r wythnos flaenorol fod y gyfradd yn **1 yn 2000.**[1]

[1] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/previousReleases


# Pa mor dda ydym ni’n ymdrin â’r coronafeirws?

Ydych chi’n meddwl fod y cyfyngiadau mewn lle ar gyfer rheoli’r coronafeirws yn…





| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i’r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 14% | 50% | 15% | 16% | 6% |
| Rwyf yn hyderus y byddai GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pebawn yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 26% | 54% | 10% | 8% | 2% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 16% | 49% | 9% | 17% | 8% |

# Ymbellhau cymdeithasol





**Os do,** faint o aelwydydd eraill mae hyn yn eu gynnwys?*





*data heb ei bwyso

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Yn ystod y 7 niwrnod diwethaf, faint o fobl o'r tu allan i'ch cartref neu eich cartref estynedig ydych chi wedi dod i gysylltiad agos a hwy, sy'n golygu o fewn 1 metr? | 27% | 24% | 23% | 27% |
| Yn y 7 niwrnod diwethaf, faint o fobl sydd wedi dod i fewn i'ch tŷ chi heblaw am y bobl yr ydych fel arfer yn byw gyda nhw neu aelodau o'ch cartref estynedig? | 71% | 23% | 5% | 1% |
| Yn y 7 niwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill ydych chi wedi bod fewn iddo, gan eithro eich cartref estynedig? | 77% | 20% | 2% | 1% |


# Ymbellhau cymdeithasol




## Credaf fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol




## Gan feddwl am y bobl rydych chi'n eu hadnabod yn bersonol, a fyddech chi'n dweud bod canllawiau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dilyn gan...



# Gorchuddion gwyneb

## Ar hyn o bryd pan fyddwch yn mynd allan, ydych chi'n gwisgo gorchudd gwyneb...

| | |
|---|---|
| Rhan fwyaf o'r amser | 64% |
| Peth o'r amser | 31% |
| Byth | 3% |
| Ddim yn berthnasol | 2% |

~ddim yn mynd allan / wedi heithrio


## Beth yw eich prif reswm dros wisgo gorchudd gwyneb?#

| | |
|---|---|
| Ar gyfer hunan ddiogelwch | 33% |
| I warchod eraill | 39% |
| Oherwydd ei fod yn ofynnol gwneud hynny | 28% |


# Heb gynnwys y rhai nad ydynt yn berthnasol;data heb ei bwyso

## O dan yr amgylchiadau canlynol, a fyddech bob amser, weithiau neu byth yn defnyddio gorchudd gwyneb?

Pan mewn siop neu archfarchnad yng Nghymru




Pan yn defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus





Pan allan mewn mannau cyhoeddus



# Diogelwch personol


## Pebai brechlyn ar gael a fyddai'n eich hamddiffyn rhag clefyd coronafeirws…


A fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*I rai sydd â phlant ar yr aelwyd*:*

A fyddech eisiau i'ch plant gael eu brechu?




*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant yn byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai a ymatebodd ' ddim yn berthnasol '; data heb ei bwysoli.


# Camau nesaf o’r adferiad

## Pa un o'r canlynol sy'n dderbyniol yn eich barn chi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl sy'n fwriadol anufuddhau i fesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dirwyo | 88% | 9% | 3% |
| Lefelau heintiau'n codi ychydig o ganlyniad i ddileu rhai cyfyngiadau | 59% | 31% | 10% |
| Pobl yn cael eu gwneud i wisgo gorchuddion gwyneb mewn mannau cyhoeddus fel siopau | 92% | 6% | 1% |
| Cloeon lleol yn cael eu gorfodi i reoli lledaeniad haint coronafeirws mewn ardaloedd ag achosion cynyddol | 91% | 5% | 4% |
| Gosod cwarantîn ar bobl sy'n dychwelyd o wledydd sydd gyda lefelau uchel o glefyd coronafeirws | 94% | 5% | 1% |

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref neu eich gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref?

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 58% | 6% | 11% | 25% |
| …i siopa | 23% | 56% | 12% | 10% |
| …am resymau meddygol | 76% | 23% | <1% | <1% |
| …i wneud ymarfer corff | 42% | 16% | 13% | 30% |
| …i gwrdd teulu / ffrindiau | 54% | 34% | 9% | 4% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu bwytŷ | 76% | 20% | 3% | 1% |
| …am ddiod mewn tafarn neu bar | 88% | 9% | 2% | <1% |

# Beth ydym yn boeni amdano?

## Dros yr wythnos diwethaf, faint mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?


| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 35% | 39% | 26% |
| Colli rhywun agos atoch o'r feirws | 24% | 26% | 51% |
| Iechyd a lles eich plant*#~ | 19% | 26% | 55% |
| Addysg eich plant*#~ | 24% | 28% | 49% |
| Colli eich swydd neu methu dod o hyd i swydd#~ | 54% | 22% | 24% |
| Gwaith, er fod eich swydd yn saff#~ | 47% | 28% | 25% |
| Eich cyllid | 57% | 24% | 19% |
| Mynd allan mewn mannau cyhoeddus# | 39% | 39% | 22% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant ar yr aelwyd; ~Data heb ei bwysoli; #yn eithro rhai a ymatebodd yn 'amherthnasol'

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cyllid a perthynas

## O ganlyniad i gyfyngiadau coronafeirws, a fyddech yn dweud fod eich sefyllfa ariannol bresennol yn?





## Ers i'r clo ddechrau, a fyddech yn dweud fod eich perthynas â'r canlynol wedi gwella, yn waeth neu wedi aros yr un fath?

| | Yn well | Yn waeth | Yr un peth |
|---|---|---|---|
| Oedolion eraill rydych yn byw gyda* | 22% | 8% | 70% |
| Plant rydych chi'n byw gyda* | 32% | 6% | 62% |
| Aelodau eraill o'r teulu* | 20% | 8% | 72% |
| Ffrindiau* | 13% | 12% | 75% |
| Cymdogion* | 29% | 4% | 67% |

*Heb gynnwys y rhai sy'n ymateb 'ddim yn berthnasol'; Data heb ei bwyso

# Pwysau ac ymarfer corff

## Ers i'r clo ddechrau, a fyddech chi'n dweud eich bod chi wedi…




## Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi ymarfer corff o leiaf 30 munud (digon i'ch gwneud allan o wynt)?

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 25% | 34% | 41% |

O'r rheiny sydd wedi yfed (sampl o 64%)*

## Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf y gwnaethoch yfed alcohol?

*Data heb ei bwyso

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 21% | 63% | 15% |

# Sut ydych chi'n teimlo?

| Teimlo'n iach | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Yn afiach iawn; 10 = Yn hynod o iachus | 7% | 24% | 70% |

| Teimlo'n hapus | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn hynod o hapus | 5% | 28% | 67% |

| Teimlo'n bryderus | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn hynod o bryderus | 46% | 30% | 24% |

# Sut ydych chi’n teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo’n……

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 69% | 61% |
| Weithiau | 20% | 26% |
| Yn aml | 8% | 8% |
| Bob amser | 3% | 5% |


## Dros yr wythnos olaf, pa mor aml mae’r canlynol wedi eich poeni?

Eich iechyd a’ch lles


| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 52% |
| Ychydig | 27% |
| Llawer | 21% |

# Blaenoriaethau y cyhoedd

## I chi'n bersonol, beth sy'n fwyaf o flaenoriaeth?




## Pebaech yn un o lunwyr polisi a fod gennych £100 miliwn i'w wario ar draws y ddau flaenoriaeth hyn, sut fyddech chi'n ei rannu?*




*Cyfran cymedrig

## Cyhoeddwyd 2il o Hydref 2020

# Ymholiadau


**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Emma Harrison

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

